

## Hanta'n symud ymlaen: stori lwyddiant

Mae gennym newyddion da. Y mae Hanta sydd wedi bod yn gweithio fel cyfarwyddwr y lloches i ferched Akany Avoko Faravohitra (AAF) ym Madagascar am y 7 mlynedd ddiwethaf, yn symud ymlaen o'r fan hon i weithio fel cyfarwyddwr Akany Avoko Ambohitrarimo (AAA), y ganolfan i blant ble tyfodd hi i fyny ynddo fel plentyn amddifad ei hun. Er ei bod hi'n symud ymlaen i fod yn gyfarwyddwr canolfan fwy o faint, y mae hi'n dal i fod yn fawr ei gofal o'r rhai sy'n dal i fyw yn Akany Avoko Faravohitra. Bydd Hanta'n helpu'r cyfarwyddwr newydd i gychwyn arni ac mi fydd hi'n parhau i ymweld â'r merched er mwyn eu cefnogi a'u hannog ar eu teithiau drwy fywyd. Bydd Money for Madagascar yn parhau i gefnogi AAF ac AAA hefyd, ac maent yn hynod hapus i barhau i rannu newyddion a chadw cyswllt a chefnogi'r ddwy ganolfan.



*Hanta ag allwedd i Akany Avoko Faravohitra ar ei newydd wedd yn 2016*



*Rhai o'r plant cyntaf i gael eu derbyn i Akany Avoko Faravohitra*



*Llwyddiant rhai o'r cyfranogwyr*

### Dechreuadau anodd

Menyw ddewr yw Hanta, mae'n rhywun a oesodd blentynod anodd. Fe'i ganed yn 1981 ac fe'i hamddifadwyd pan oedd yn 7 oed. Gofalwyd amdani gan ei mam-gu cyn gorfod cael ei rhoi mewn cartref gofal (Akany Avoko Ambohitrarimo) ynghyd ag un o'i chwiorydd. Er gwaethaf y dechrau anodd, gyda gofal a chefnogaeth staff Akany Avoko, yn 2006 llwyddodd i ennill gradd meistr mewn Gwaith Cymdeithasol.

Yn 2015, fe'i hapwyntiwyd yn gyfarwyddwr Akany Avoko Faravohitra. Bu'r ganolfan ar gau yn y cyfnod cyn iddi gymryd drosodd ond gweithiodd Hanta'n galed, gan gychwyn gyda'r gwaith ailadeiladu ac yna fwrw ymlaen gyda'r gwaith gweinyddol. Ail-agorodd y lle ym mis Mawrth 2016 ac mae wedi mynd o nerth i nerth. Datblygodd Hanta sawl prosiect ar y cyd â phartneriaethau cenedlaethol a rhyngwladol gan gynnwys Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

### Anogaeth a chyfleon

Yn ystod ei hamser yn AAF gofalwyd am 368 o blant agored i niwed – merched gan mwyaf – yn y ganolfan. Addysgwyd 295 o ferched mewn ysgolion o amgylch y ganolfa, ymgymerodd 40 o bobl ifanc mewn hyfforddiant galwedigaethol, gyda 29 o ferched yn derbyn diploma gwladol. Hyfforddwyd eraill yn y ganolfan ei hun. Pan gyrhaeddodd Hanta yn y ganolfan dim ond 2 addysgwr oedd ar y staff, bellach y mae 14 addysgwr parhaol yno. Cwblhawyd gwaith adnewyddu yn y ganolfan gan gynnwys trawsnewid yr hen garej i fod yn llyfrgell ac ystafell gyfarfod, hefyd adeiladwyd toiledau ar gyfer y plant ac ar gyfer staff, a gosodwyd system biomas yn ei le. Mae'r ystafelloedd cysgu, y ffreutur a'r caffi menter-micro wedi'u cwblhau ac yn gyflawn weithredol.

### Llwyddiannau

Mae'r plant yn derbyn datblygiad ysbrydol ardderchog yno ynghyd ag addysg dda, dyma gychwyn cadarn iddyn nhw ar gychwyn eu bywydau ac mae llwyddiannau'r plant yn tystio i'r gwaith gwych gaiff ei gyflawni gan bawb sydd ynghlwm ag Akany Avoko Faravohitra. Bydd y plant yn ffynnu ac yn tyfu i fod yn oedolion hardd fydd yn barod i gyfrannu'n adeiladol i fywyd ym Madagascar.


Wrth i'r argyfwng costau byw wasgu'n galed ym Madagascar, byddai Hanta'n gwerthfawrogi'r parhad yn y cariad a'r gweddïau, a'r gefnogaeth ymarferol ddaw o Gymru yn fawr iawn, ac yn wir gan unrhyw rai a hoffai aros gyda hi ar y cam nesaf yn ei chenhadaeth.

## YMHLITH Y LLYFRAU

Yntydi llyfrau yn medru melynu os nad ydyn nhw'n cael eu defnyddio, dwedwch? Mynd ar sgowt wnaeth fy llygaid i un noson yn ddiweddar yn fy stafell weithio



(stydi ydi'r gair crand), a dyma ddigwydd taro ar un llyfr tenau glas, ac ôl bodio yn y canrifoedd pell arno. Gwasg Tryfan yn Llanrwst a'i cyhoeddodd yn 1975 am y pris 75 ceiniog! Dwi ddim yn meddwl bod angen bod yn ddiectif, wel, i'r to hynaf ohonom beth bynnag, pwy oedd piau Gwasg Tryfan yn Llanrwst yn 1975. Gweinidog yr Annibynwyr yn y dref



oedd hwnnw - Idwal Jones - un o'r cymeriadau mwyaf unigryw fu erioed. O ia, well i mi roi teitl y llyfr i chi, *Crafu Ceiniog*. Mae'n debyg mai copi 'nhad oedd hwn gan i Idwal ac yntau

fod yn dipyn o ffrindiau ar hyd y blynyddoedd, a'r ddau, wedi cydweinigogaethu am gyfnod, y naill yn

Llanrwst a'r llall yn Nhrefriw dros yr afon.

## Y WEINDOGAETH EHANGACH NA'N MEDDYLIAU NI

Wrth bori yn y gyfrol fach hon, yr hyn mae dyn yn ei weld ydi Idwal Jones, ymhob lle y bu'n gweinidogaethu ynddynt, yn gwneud rhyw bethau fymryn yn 'wahanol' ac yn 'ychwanegol' i'r hyn a ddisgwylid gan weinidog, yn arbennig gweinidogion y cyfnod. Gadewch i mi roi enghraifft i chi mewn dyfyniad ganddo am un o'm rhagflaenwyr i un un o'r eglwysi yma:

'Mi faswn i'n lecio enwi un, gan fawr obeithio y gwnaiff o faddau imi am wneud hynny, sef Stanley Owen, Cricieth. Dyma'r unig ddynt yng Nghymru sy'n fy styrbio i, a minnau'r salaf un o weinidogion yr Annibynwyr. Bob tro y bydda i'n cyfarfod neu'n clywed sôn am y dyn yma, mi fyddai'n cael rhyw bigiadau o gydwybod ac yn profi rhyw simsanrwydd meddwl mwyaf annifyr fuo 'r iroed. Mae Stanley Owen yn medru bod yn athro ysgol llawn-amser ac yn rhoi gweinidogaeth gyflawn a goleuedig i'r saint yng Nghricieth 'run pryd.'

Gwir hynny, oherwydd wedi deg ar hugain o flynyddoedd wedi'i farw, y mae ei enw'n fyw yno gan bawb o hyd, am iddo weinidogaethu yn yr ardal rhwng 1940 a blwyddyn ei farw yn 1993. Nodi y mae Idwal yma am Stanley Owen yn medru bod yn ddeubeth yr un pryd, a thrwy

hynny yn rhyddhau adnoddau eglwys i gael eu defnyddio yng ngwasanaeth eu Harglwydd, oherwydd y peryg ar y pryd yn yr eglwysi fyddai disgwyl i'r gweinidog wneud popeth, a'i wraig hefyd ... A gyda llaw, dwi'n sôn am gyfnod yn y fan yma lle nad oedd llawer o sôn am ferched yn weinidogion, gwaetha'r modd.

## DIFYRRWCH Y DARLLEN

Dwi'n cofio Idwal, neu Yncl Idwal, yn iawn, ac ydw, mi rydw i'n ei gysylltu â thref Llanrwst. Ond un o Dal-y-sarn yn Nyffryn Nantlle oedd o wedi ei fagu yng nghapel Seion yno. Wedi cyfnod yng Ngholeg Bala-Bangor dechreuodd ar yrfa faith yn y weinidogaeth, a hynny yn 1933 yn Llanrhaeadr-ym-Mochnant ym Maldwyn. Yma y bu'n gweinidogaethu yn y dull arferol, ond hefyd yn gwneud peth mor chwyldroadol â chadw ier a gwerthu wyau ac mi fyddai'n mynd a'r wyau 'i Groesoswallt bod dydd Mercher i gyfarfod y dilars.'

Yn 1936, cymrodd y cam pell hwnnw o symud o Lanrhaeadr-ym-Mochnant i Ryd-y-fro yng nghwm Tawe, a beth ddigwyddodd yno maes o law, yn ychwanegol at y gweinidogaethu arferol? Caiff Idwal ei hun esbonio: 'Mae sut y dechreuais i gadw moch yn stori ynddi'i hun, a dydi hanes y dechrau ddim yn berthnasol i'r mater dan sylw, felly waeth i mi heb a sôn amdano.' Ond dyma'r gorchwyl ychwanegol yn Rhyd-y-fro.

Iwan Llewelyn

*Bydd ail ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.*

## Câr dy gymydog

Mae tuedd i bibydd brith y cyfryngau torfol ddewis nifer cyfyngedig o straeon sydd at eu dant gan beri i ddegau o filoedd o bobl i ddawnsio yn ddifeddwl i'w halaw fas. Tra bo'r sefydliad Prydeinig wrthi'n ddygn yn cadarnhau eu *status quo* trwy bwysleisio goruchafiaeth a hawliau digwestiwn y dosbarth breiniol, hawdd yw anghofio'r anghenus. 'Câr dy gymydog fel ti dy hun,' yw un o'n harwyddeiriau ac mae'r angen am weddi a haelioni ariannol tuag at sefyllfaoedd o ddiodeffaint yn ein byd yn enfawr. Ni allwn gofio am y cwbl ond mae'n bwysig atgoffa ein gilydd o rai. Dyma ddwy sefyllfa inni gofio amdanynt o blith cannoedd.

## Affganistan

Ers i'r Taliban gymryd trosodd llywodraethu'r wlad y mae sefyllfa'r bobl wedi dirywio'n fawr. Dywed UNICEF fod 10 miliwn o blant angen cymorth dyngarol brys. Mae ansefydlogrwydd gwleidyddol, sychder a Covid-19 wedi creu argyfwng



mawr. Ar ben hyn ym mis Mehefin bu daeargryn mawr yn nwyrain y wlad a laddodd tros fil o bobl. Mae effaith y dinistr fu ar adnoddau, gwasanaethau a glanweithdra yn parhau. Hefyd y mae safle menywod wedi gwaethygu yno wrth i'r Taliban gau dwrn dur eu hawdurdod gwrywaidd.

*Gweddiwch:* Am sefydlogrwydd gwleidyddol; am gyflenwadau dŵr, bwyd a moddion; y bydd merched yn cael hawliau dynol sylfaenol fel addysg. Ac os gallwch rhwch gyfraniad i rai o'r elusennau sy'n

gweithio yno e.e., Cymorth Cristnogol, Save the Children, Unicef.

## Pacistan

Mae'r sefyllfa ym Mhacistan yn parhau i fod yn hunllefus. Mae'r llifogydd wedi lladd o leiaf 1,100 ac mae o oddeutu 6 miliwn o bobl angen cymorth dyngarol brys.

## Ffeithiau

- Yn ôl llywodraeth Pacistan y mae treian y wlad – ardal maint Prydain – o dan ddŵr.
- Mae dros filiwn o gartrefi wedi eu dinistrio a'u difrodi
- Mae'r ardaloedd sydd wedi eu heffeithio waethaf wedi cael pum gwaith yn fwy o law na'r cyfartaledd dros 30 mlynedd.

*Gweddiwch:* Dros lywodraeth a gwasanaethu Pacistan; y bydd trai cyflym ar y llifogydd; y bydd digon o adnoddau yn cyrraedd y bobl sydd mewn gwir angen. Ac os gallwch cyfrannwch trwy Apêl Brys DEC.

# Yr Adran Gydenwadol


## Paratoi ar gyfer tymor newydd yr Ysgol Sul

### Dosbarthiadau oedolion

Maes Llafur 2022/23 – *Dehongli Bywyd a Gwaith Abraham: y patriarch eciwmenaidd*, gan Gareth Lloyd Jones.

Yn dilyn blynyddoedd o wersi'n seiliedig ar gyfrolau'r diweddar Barchedig Elfed ap Nefydd Roberts (a fu'n dilyn themâu o fewn y Testament Newydd), yn ystod y blynyddoedd nesaf hyn byddwn yn cael ein tywys at adrannau a llyfrau yn yr Hen Destament. Bydd hynny mewn cyfres o lyfrau 'Dehongli ...', wedi eu paratoi gan y Parchedig Ddr Gareth Lloyd Jones, Llandegfan.

O fis Medi 2022 ymlaen, byddwn yn troi i gyfeiriad Abraham, y patriarch eciwmenaidd, ac yna, yn 2023, yn astudio'r ail gyfrol yn y gyfres, sef *Dehongli Bywyd a Gwaith Esther a Jona*, cyn gorffen gyda *Dehongli Bywyd a Gwaith Moses*. Pris y cyfrolau hyn yw £8.99 yr un, ac maent ar gael o'ch siop lyfrau Cymraeg leol, neu gellir prynu copi o'r gyfrol ar Abraham ar ffurf PDF digidol yma: <https://ysgolsul.com/?download=dehongli-bywyd-abraham-y-patriarch-eciwmenaidd>.



Mae gwbyodaeth lawn am y cyfresi hyn ar gael o wefan [Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru](http://Cyngor Ysgolion Sul ac Addysg Gristnogol Cymru), lle ceir hefyd samplau o wersi i'w lawr lwytho. Mae digonedd o wersi hefyd ar gael o wefan [www.gair.cymru](http://www.gair.cymru), a'r rheini yno i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim.

Dros y misoedd nesaf fe fydd Cyngor yr Ysgolion Sul ar daith, mewn un lleoliad gwahanol ar hyd a lled Cymru bob wythnos. Bydd cyfle i weld rhai o'r adnoddau hyn, yn ogystal â thrafod sut mae modd cychwyn a chynnal gwaithgaredd

Cristnogol sy'n addas ar gyfer ein cyfnod ni yn lleol yn ein cymunedau. Bydd gwbyodaeth am y nosweithiau hyn ar dudalen Facebook Cyngor yr Ysgolion Sul.

Cofiwch gysylltu os hoffech gael mwy o wybodaeth neu gyngor: [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com) neu 01766 819120.

Aled Davies

Cyfarwyddwr Cyngor Ysgolion Sul Cymru



Yn ychwanegol at y cyfrolau hyn, fe fydd yna gyflwyniad byr i'r wers ac ambell sylw perthnasol a chyfoes yn cael eu cynnwys o fewn tudalennau *Cenn@d a'r Tyst*, yn ogystal â chwestiynau i'w hystyried. Yn ystod y flwyddyn gyfredol, y Parchedig Meirion Morris fydd yn gyfrifol am y gwersi a'r sylwadau hynny. Bydd y gyfres yn cychwyn yn ffurfiol cyn diwedd Medi.

### Dosbarthiadau plant ac ieuencid

Dros y blynyddoedd diwethaf cyhoeddwyd nifer o werslyfrau gwahanol, sy'n addas i bob oed ac i sefyllfaoedd gwahanol. Mae rhai'n addas i ysgolion Sul mwy, efo'u dosbarthiadau gwahanol, tra mae eraill wedi eu paratoi ar gyfer criw bach ac ystod o oeddrannau gwahanol mewn un dosbarth. Ceir cyfresi sy'n cynnwys gwersi ar gyfer pob Suly o'r flwyddyn, ond hefyd gyfresi sy'n fwy addas ar gyfer y sefyllfaoedd hynny lle mae'r sgol Sul yn cwrrd yn fwy tymhorol, neu efallai'n fisol.

## Cynhelir Oedfa i Ddathlu DAUCANMLWYDDIANT GENI IEUAN GWYLLT (1822-77)

yng Nghapel Pen-llwyn  
Nos Sul, 2 Hydref 2022  
am 5.00 yh

Llywydd: Ms Bronwen Morgan

Arweinir y noson gan

Y Fns Margaret Daniel a Dr Rhidian Griffiths

Cyfeilydd: Alan Wynne Jones

Dewch yn llu i ganu ac i rannu

Bydd rhaglen ar gael wrth y drws

Cyfrannodd John Roberts (Ieuan Gwyllt) a anwyd yn Nhanrhiwfelen, Capel Seion, cyn i'w deulu symud i ardal Pen-llwyn, yn aruthrol i ganu cynulleidfaol yng Nghymru. Heblaw am gyfansoddi emyn-donau mawreddog fel 'Moab' a 'Liverpool' ef hefyd a gyhoeddodd *Sŵn y Jiwbilli* oedd yn addasiad o emynau poblogaidd Sankey a Moody. Yr ydym yn parhau i ganu rhai o'i donau mwyaf poblogaidd hyd heddiw!

Byddwn yn cael ein harwain i gofio am fywyd ac am gyfraniad John Roberts gan Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth, sy'n gerddor ac yn arbenigwr yn hanes canu cynulleidfaol. Bydd Margaret Daniel, Blaenannerch, yn ein harwain i ganu detholiad o'r emynau a bydd Alan Wynne Jones, Bow Street yn cyfeilio wrth i ni gydganu.

## Hanes Tregaron a'r Cyffiniau gan D. Ben Rees (Y Lolfa, 2022; pris £14.95 – clawr meddal, £29.95 – clawr caled)

I'r degau o filoedd a fynychodd yr Eisteddfod Genedlaethol groesawgar o 30 Gorffennaf hyd 7 Awst 2022 bydd ardal Tregaron yn aros yn y cof yn gefndir hardd i brysurdeb diwyllianol y Maes hwylus a hardd. Proffwydodd D. Ben Rees hanner can mlynedd yn ôl y byddai'r Eisteddfod yn dod i'r meysydd hyn a gwiredwyd ei freuddwyd, fel y dywedodd wrth y dyrfa oedd wedi dod ynghyd i wrando ar ei ddarlith ar hanes Tregaron yn y Babell Lên ar ddiwrnod agoriadol yr Eisteddfod. Ac yn y cyfarfod hwn, dan gadeiryddiaeth Elsi Reynolds, lanswyd ei gyfrol swmpus ar hanes Tregaron.

Bu Tregaron yn dref farchnad ers canrifoedd, yn wir ers y 13eg ganrif pan oedd hosanau, blancedi a dillad cynnes ar gyfer oerni'r brynau cyfagos yn cael eu gwerthu yno bob dydd Mawrth. Cynhelid ffeiriau prysur iawn yma ym misoedd Mawrth a Mai, pan oedd da byw, yn geffylau, teirw a defaid, yn cael eu masnachu. Roedd y rhain, yn eu tro, yn denu llu o borthmyn, ac amcangyfrifir bod 30,000 o anifeiliaid yn cael eu symud yn flynyddol o Dregaron i farchnadoedd Llundain.

Magwyd yr awdur ar fferm hanner ffordd rhwng Tregaron a Llanddewibrefi ac felly mae'n gallu plethu i strwythur y gyfrol beth o'i hanes teuluol ei hun a'i atgofion personol.


Cawn ein cyflwyno i grwydriaid a beirdd hunanaddysgedig, i farbwyr lleol fel Jac Olifer, ac i lu o ffermwyr yn ogystal â llu o weinidogion. Yn y pentrefi cyfagos roedd y rhan fwyaf o'r ffermwyr a'r tenantiaid yn Fethodistiaid Calfaidd selog ac roedd diwylliant y capel yn gryf iawn. Yn wir, yn 1901 nid oedd dim llai na 91 o gapeli yn ne Ceredigion, sef un ar gyfer pob 186 o bobl, â dau gapel yn nifer o'r pentrefi. Ond efallai nad oes yr un mor eiconig â Soar-y-mynydd unig, un o'r tai cwrdd Cristnogol symlaf a sefydlwyd dros 200 mlynedd yn ôl mewn llecyn anghysbell ond prydferth ar lan afon Camddwr.

### Cymeriadau lleol

Mae gan dref Tregaron ei hun dirnodau gweladwy iawn, megis y cerflun o'r gwleidydd a'r heddychwyr Henry Richard, siop y gemydd Rhiannon Evans y tu ol i gofgolofon Twm Siôn Cati a'r Talbot Hotel, lle y gellid mynd i dorri syched ers y Canoloesoedd. Mae gan yr ardal hefyd enw da ledled y byd am fridio cobiau Cymreig, er enghraifft Bridfa Derwen, cartref y Dderwen Rosina chwedlonol a'i hepil, Derwen Welsh Comet, a allforiwyd i Bacistan i wella'r stoc o geffylau ar gyfer chwarae polo.

Bu'r dref yn ganolbwynt prysur i ddiwylliant yr iaith Gymraeg ers blynyddoedd lawer, ac mae'r ysgol uwchradd leol, Ysgol Uwchradd Tregaron a elwir bellach yn Ysgol Henry Richard, wedi cynhyrchu nifer o genedlaetholwyr amlwg, megis W. Ambrose Bebb, Cassie Davies, Griffith John Williams a J. Kitchener Davies, nes iddi gael ei hadnabod yn goeglyd fel ysgol breifat Plaid Cymru.

Un o bobl fwyaf diddorol yr ardal oedd Joseph Jenkins, a ymfudodd i Awstralia, lle y bu'n byw am chwarter canrif fel swagman. Yn ffodus, cadwodd ddyddiadur manwl o'i anturiaethau dros gyfnod o ryw drigain mlynedd. Yn fwy ffodus



fyth, cafwyd hyd i'r rhain ar ôl ei farwolaeth a'u hargraffu mewn cyfrol y dywedodd Jan Morris amdani ei bod wedi dod â chorneli gwahanol byd y 19eg ganrif yn syfrdanol o fyw.

Mae rhai o'r cymeriadau lleol eraill yn llawer mwy diweddar, megis y pysgotwr a'r darlledwr Moc Morgan, a aeth â'r Arlywydd Jimmy Carter a'i wraig, Rosalind, allan am ddiwrnod o bysgota ar afon Teifi.

### Dadleuol

Roedd rhai trigolion lleol yn fwy dadleuol, er enghraifft Elizabeth Inglis-Jones o Fetws Bledrws a enynnodd ymateb cryf gan bennaeth Coleg Dewi Sant, Llanbedr Pont Steffan, gyda'i phortread deifiol o fywyd Sir Aberteifi yn ei nofel hanesyddol gyntaf, *Starved Fields*.

Ond ni tharfwyd ar Inglis-Jones ac aeth ymlaen i ysgrifennu nifer o lyfrau eraill gan gynnwys *Peacocks in Paradise*, sy'n adrodd hanes Thomas Johnes ac ystad yr Hafod, y tybir ei fod yn ysbrydoliaeth i gerdd 'Kubla Khan' Coleridge.

Gyda'i egni a'i ddiwydrwydd arferol mae D. Ben Rees wedi cynhyrchu cyfrol sylweddol am dref Gymreig fechan ond arbennig. Mae'r gyfrol yn elwa'n fawr o'i wybodaeth eang a'i gariad amlwg at y lle a'i drigolion, o berchnogion garej i aelodau'r clwb jiwdo, o gludwyr llythyrau a gerddai filltiroedd dros y brynau i fugeiliaid yn yr un lleoedd gwyllt. Y bobl sy'n dod â lle yn fyw ac mae D. Ben Rees yn ein cyflwyno i nifer helaeth ohonynt gyda'i egni a'i frwdfrydedd arferol.

## O'r Beibl: 16

### Y Gwynfydau (9)

*'Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.'*  
(Mathew 5:10)

Hwn yw'r gwynfyd olaf yn y Bregeth ary Mynydd. Yn y Gwynfydau mae'r Arglwydd Iesu wedi amlinellu sut bobl yw'r rhai sy'n wir ddisgyblion iddo; sut bobl yw'r rhai sydd wedi 'edifarhau' a chredu'r Efengyl er mwyn derbyn bendith Duw (Mathew 3:2). Mae'n bwysig atgoffa ein hunain o'r hyn y mae Iesu eisoes wedi ei ddweud cyn dod at y Gwynfyd olaf.

Yn gyntaf, mae Cristnogion yn 'dlodion yn yr ysbryd' (Mathew 5:3). Hynny yw, maent wedi edrych ar eu calonnau eu hunain gan sylwi ar eu tlodi ysbrydol fel pechaduriaid. O weld eu pechod a'u tlodi, maent yn 'galaru' (5:4) gan droi at Dduw am y maddeuant a'r bywyd sy'n cael eu cynnig yn rhodd yng Nghrist. Maent yn 'addfwyn' (5:5) eu hagwedd tuag at eraill ac maent yn 'newynu a sychedu' (5:6) am gael gweld cyfiawnder Duw yn cael ei sefydlu yn y byd o'u cwmpas. Maent yn 'drugarog' (5:7) ac yn araf i ddigio, ac maent yn 'bur eu calon' (5:8) wrth iddynt fyw bywydau sanctaidd i Dduw. Maent yn 'dangnefeddwyr' (5:9) sy'n barod i faddau yn hytrach na thalu'r pwyth yn ôl.

Dyma ddisgrifiad ardderchog o nodweddion bywyd y Cristion. Y rhain yw'r bobl sydd wedi cael eu bendithio gan Dduw yn y gorffennol, sydd yn cael eu bendithio yn y presennol a'r rhai fydd yn cael eu bendithio yn y dyfodol. Y rhain yw'r bobl sydd yn ddinasyddion yn 'nheyrnas nefoedd' (5:3) a'r rhai fydd yn cael eu 'cysuro' (5:4) gan Dduw. Y rhain fydd yn cael 'etifeddu'r ddaear' (5:5) a'r rhai fydd yn cael eu 'digion' (5:6) pan ddaw Crist yn ôl. Y rhain fydd yn cael derbyn 'trugaredd' (5:7) Duw yn hytrach na'i farn ar y dydd olaf a'r rhai fydd yn cael ei 'weld' (5:8) wyneb yn wyneb ar y diwrnod hwnnw. Y rhain yw'r rhai sydd wedi cael eu mabwysiadu yn 'blant i Dduw' (5:9) trwy eu ffydd yn Iesu Grist.

Fel pob gwynfyd, mae'r gwynfyd olaf hefyd yn troi safonau'r byd wyneb i waered. Mae Iesu yn dweud bod y rhai sy'n cael eu 'herlid yn achos cyfiawnder' yn 'wyn eu byd' (5:10). Nid oes neb yn disgwyl i rywun sy'n cael ei erlid fod yn 'wyn ei fyd'! Ond, yn achos y Cristion, mae hyn yn gwbl wir.

Os ydym yn credu yn Iesu Grist ac yn mentro byw ein bywydau iddo, byddwn yn cael ein herlid neu ein gwrthwynebu gan y byd o'n cwmpas. Er na chawn ein 'herlid' am ein ffydd yng Nghymru heddiw, rydym yn sicr o gael ein gwrthwynebu am ei ddilyn. Mae pobl yn sicr o dynnu ein coes am garu Iesu'n fwy na neb arall ac o'n sarhau am gymryd y Beibl o ddifrif. Mae hyd yn oed ein cyd-weithwyr, ein ffrindiau a'n teuluoedd yn gallu pwyso arnom i gyfaddawdu ein ffydd gan ddod yn debycach i'r gymdeithas sydd o'n cwmpas, er mor groes ydy rhai o'i blaenoriaethau hi i rai'r Arglwydd Iesu. Er hynny, mewn rhai gwledydd heddiw, gan gynnwys Affganistan, Gogledd Corea, Somalia, Libia, Iemen, Eritrea, Nigeria, Pacistan, Iran, a Tsieina,



mae erledigaeth yn realiti dyddiol. Gall Cristnogion y gwledydd hyn gael eu lladd am gredu yn Iesu.

Ond er mor rhyfedd mae'n swnio i'n clustiau, mae Iesu'n dweud bod y rhai sy'n cael eu herlid a'u gwrthwynebu 'o'm hachos i' (5:11) yn 'wyn eu byd'. Pam? Oherwydd 'eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd' (5:10). Er y gall Cristnogion gollu eu statws, eu heiddo, eu cartrefi, a'u teuluoedd am gredu yn Iesu, nhw yw'r rhai sy'n cael bod yn rhan o 'deyrnas nefoedd' heddiw a'r rhai fydd yn cael eu cysuro gan Iesu pan ddaw'n ôl. Diolch iddo!

#### Cwestiynau i feddwl amdanynt

- Pam mae Cristnogion yn cael eu gwrthwynebu neu eu herlid heddiw? Ydyn ni wedi teimlo'r pwysau i gyfaddawdu yn ddiweddar? Ym mha ffordd?
- Pam mae'n syndod fod Iesu'n dweud bod y rhai sy'n cael eu herlid yn 'wyn eu byd'?
- Pam mae Cristnogion sy'n cael eu herlid yn 'wyn eu byd'?

Gwilym Tudur

Hon yw'r olaf yn y gyfres gan y Parch. Gwilym Tudur, a diolchwn iddo am baratoi'r gwersi hyn ar ein cyfer. Yr wythnos nesaf byddwn yn adfer y wers ysgol Sul gyda chyfres o fyfyrddau wythnosol o waith y Parch. Meirion Morris a fydd yn dilyn hanes Abraham (Gweler hefyd t. 1).

BBC radio cymru

#### Caniadaeth y Cysegr

Sul, 25 Medi, am 7:30yb a 4:30yp

Rhaglen o ganu cynulleidfaol o gymanfa Westminster, Llundain

Sul, 25 Medi, am 12:00yp

Oedfa dan arweiniad Emyr Gwyn Evans, Y Tymbl

I weld y cyhoeddiad digidol [Cenn@d](mailto:Cenn@d) yn llawn, dilynwch y ddolen hon: [www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru)

(Cyhoeddir [Cenn@d](mailto:Cenn@d) ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaidd Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

## Stephen Hughes, Apostol Sir Gaerfyrddin 1622-1688

*Dyma ail ran darlith a draddodwyd gan Dr Emyr Gwyn Evans fel rhan o bererindod Gofalaeth Bröydd Myrddin i Bencader ac ogof Cwmhwplin.*

Pan basiwyd Deddf y Confentiglau sef deddf cynnal cyrddau yn 1664 gwaharddwyd i fwy na pum person oedd yn 16 mlwydd oed neu thros hynny, yn ychwanegol at aelodau'r teulu lle cyfarfyddent, i ymgynnull i addoli yn y tŷ ac ar yr aelwyd. Ond roedd yr Ymneilltuwyr cynnar yn gwrthod cydymffurfio â'r ddeddf ac yn ymgynnull i addoli yn y dirgel ac yn anghyfreithlon gan addoli mewn ogofau, megis ogof Cwmhwplin ym Mhencader, ac addoli mewn ysgubor ac mewn ambell gartref oedd yn barod i roi benthyg yr aelwyd ar gyfer dibenion addoli, megis cartref y weddw Maria Jenkin ym Mhencader. A dim ond y sawl oedd ganddynt y mater anghydfurfiol oedd yn meiddio mynd yn groes i ddeddf gwlad ac i fenthyg eu tai ar gyfer addoli fel hyn, megis y Wern-chwith yn Llanedi pan enillwyd David Penry, mab plas Llanedi i'r achos.

### Carcharu

Fe dreuliodd Stephen Hughes gyfnod yn y carchar oherwydd ei fod yn pregethu y tu allan i'w blwyf. Yn ôl David Peter yn ei *Hanes Crefydd yng Nghymru* roedd 'yn dewis mynd i'r conglau mwyaf tywyll, ac i'r 4lleoedd lle yr oedd offeiriad anwybodus na fedrent bregethu.' Ym mis Rhagfyr 1667 fe'i gwyswyd gan lys yr Archddiacon yng Nghaerfyrddin am gynnal confentigl yn anghyfreithlon yn Llansteffan a chafodd ei ysgymuno o'r eglwys. A chafodd ei wahardd a'i ysgymuno drachefn am gadw ysgol heb drwydded. Roedd y Ddeddf Unffurfiaeth yn gorchymyn fod rhaid cael trwydded i gynnal ysgol. Ac eto, er iddo ddod dan wg yr awdurdodau, fe ddaliodd Hughes i herio'r gyfraith trwy fugeilio'n selog ei breiddiau gwasgarog ar hyd a lled y sir.

### Academi

Stori enwog yw'r hanes am Stephen Hughes yn pregethu yng Ngwern-chwith yn Llanedi ar ddydd gŵyl. Tra bu'n pregethu yno y diwrnod hwn fe sylwodd ar ŵr dieithr iddo yn eistedd yn y gynulleidfa. Roedd yn ofni mai ustus heddwch ydoedd yn ysbio ar ran yr awdurdodau a'i fod wedi dod yno i'w arestio a mynd ag ef i'r ddalfa. Ar ddiwedd yr oedfa daeth y gŵr dieithr ymlaen a chydio yn llaw Stephen Hughes. 'Gobeithio, syr, nad ydych wedi dod yma

i'm dal a'm dwyn yn garcharor,' meddai Hughes. 'Nac ydwyf, fy annwyl syr,' atebodd y gŵr gyda dagrau yn rhedeg ar ei ruddiau 'chi sydd wedi fy nal innau.' David Penry o blas Llanedi oedd y gŵr bonheddig, ac o hynny ymlaen fe fwriddod ei goelbren gyda'r Annibynwyr gan ddod maes o law yn weinidog i'r eglwys yn Llanedi. Ac ym mlwyddyn marw Hughes, fe wnaeth ordeinio David Penry yn weinidog yn Llanedi; yn yr un flwyddyn fe ordeiniodd William Evans ym Mhencader. Symudodd William Evans ymhen ychydig flynyddoedd i fugeilio'r eglwys yng Nghaerfyrddin, a sefydlodd yno academi, ddatblygodd i fod yr Academi Bresbyteraidd enwog yng Nghaerfyrddin. Ym mlwyddyn ei farw gwyddom hefyd i Stephen Hughes sefydlu John James yn y Cruglas lle cynullai yr achos ym Mhant-teg ar y dechrau, ond un a weinidogaethodd yn bennaf i'r achos yn Llan-y-bri; a sefydlodd yn yr un flwyddyn Owen Davies yn y Pâl Mawr. Erbyn hyn ac yntau'n heneiddio roedd Hughes yn amlwg yn ymddiried yr arweiniad yn yr eglwysi i'w olynwyr.




### Dawnsio a chwarae

Yn ôl David Peter fe bregethai Stephen Hughes ddwywaith bob Sabbath a thrafaelio wyth neu ddeg milltir rhwng pob pregeth. Mae'n debyg y byddai'n pregethu ym Mhant-teg ar ei daith o'r Mynydd-bach i Bencader. Ac mae stori enwog amdano, yn ôl yr hanesydd Thomas Rees yn marchogaeth ar ei ffordd i ogof Cwmhwplin a hynny ar Sul y Pasg pan welodd griw o bobl yn dawnsio a chwarae mewn cae gerllaw Parc-y-blawd ym mhlwyf Llanegwad. Wedi iddo wyllo'r miri am ychydig mae'n debyg fod Hughes wedi gwaeddi ar eu harweinydd, 'Os dewch gyda mi dros y mynydd fe gewch well ddifyrrwch nag a gewch yma.' Cytunodd nifer o'r dawnsywyr i'w hebrwng ac yn y man, yn ogof Cwmhwplin, fe lwyddodd Hughes i'w hennill i'r achos. Edrydd John Dyfnallt Owen yr hanes yn ei gerdd 'Stori Ogof Cwmhwplin'.

*Bydd trydedd ran yr erthygl hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.*

## Plygu glin

Ers i'r Frenhines farw ddydd Iau 8 Medi bu llawer o sôn am gadernid ei ffydd Gristnogol, ei bywyd defosiynol, ei ffyddlondeb i'w heglwys, ei pharch at y Beibl, ei hoffter o'r Llyfr Gweddî Gyffredin a'i thystiolaeth i'r nerth a brofodd mewn gwahanol amgylchiadau trwy weddi bersonol. Cyfeiriwyd at ei chysylltiadau agos â dau o bregethwyr mwyaf dylanwadol ail hanner yr ugeinfed ganrif, yr efenglydd Billy Graham a'r diwinydd a'r offeiriad John Stott. Roedd y Ffydd Gristnogol a holl draddodiad ei Heglwys yn bwysig iddi, ond yn fwy na hynny hyd yn oed roedd ei ffydd bersonol yn Nuw ac yn Iesu Grist yn sylfaenol i'w bywyd.



### Eich cynnwys chi

Flynyddoedd yn ôl, clywais am oedfa Sul y Maer a gynhaliwyd, hyd y cofiaf, yn Abertawe. Seiliwyd pregeth y Sul hwnnw ar eiriau Iesu wrth Nicodemus: 'Oni chaiff rhywun ei eni o'r newydd ni all weld teyrnas Dduw' (Ioan 3:3). Ac wedi dyfynnu'r geiriau, meddai'r pregethwr, 'Ac mae hynny yn eich cynnwys chi, Mr Maer!' Wn i ddim sut yr ymatebodd y Maer i'r her honno, ond dangoswyd bod ar y Maer, fel pawb arall, angen y bywyd newydd yng Nghrist. Roedd hynny'n wir am Nicodemus hefyd, er ei fod 'yn aelod o Gyngor yr Iddewon,' ac fe'i gwelwn yn ymgodymu â geiriau Iesu. Erbyn i ni ei weld nesaf, yn un o'r ddau a dynnodd gorff Iesu oddi ar y groes, mae Nicodemus yn amlwg wedi ymostwng i Iesu a chredu ynddo (Ioan 19:39). Yn ôl pob tystiolaeth, gwyddai'r Frenhines ei fod yn wir amdani hithau.

### Brenin y Brenhinoedd

Clywsom am ei hymgysegrïad i'w swydd. Ac er ei hymdeimlad amlwg o wasanaeth wrth gyflawni ei gwaith, mae'n amlwg wrth gwrs ei bod yn wraig freintiedig iawn. Ni allwn ond dychmygu'r ffordd y bu eraill yn gweini arni ar hyd ei hoes. Trwy ddeng mlynedd a thrigain ei brenhiniaeth bu pobl yn moesyngrymu o'i blaen ac yn talu gwrogaeth iddi. Ond er i'r afon o deyrngedau lifo'n fyrlymus ers tridiau, daeth y moesyngrymu a'r wrogaeth i

*parhad ar y dudalen nesaf*

## Barn Annibynnol

### Mam-gu

Wrth ysgrifennu'r geiriau hyn lai nag wythnos cyn angladd y Frenhines Elisabeth yr Ail, mor hawdd anghofio, yng nghanol y rhwysg defodol, mai teulu sydd yma yn galaru o golli mam a mam-gu, person fu'n ffurfiannol ym mhob ffordd iddynt dros y blynyddoedd. Tybed pa mor dda yw hi i iechyd meddwl y teulu i orfod perfformio eu galar ar lwyfan cyhoeddus a pha mor llesol ydy hi i'r cyhoedd i wyllo oriau dwys a di-dor o'i marwolaeth ar y cyfryngau? Wrth ganolbwyntio ar un ffigwr cyhoeddus fel hyn, mae yna farwolaethau eraill, mwy trasig, yn cael eu hanghofio, fel y colledion ar y ddwy ochr yn Wcráin a dioddefwyr llifogydd Pacistan. Heddiw cynhelir angladd Olivia Pratt-Korbel, y ferch fach naw oed a laddwyd ar hap wrth i derfysgwyr cyffuriau ruthro i'w thŷ. Mae'r rhain yn golledion sydd yr un mor bwysig â'r un brenhinol, ond yn fwy anghysurus am eu bod yn ein herio i geisio ymateb a gwneud rhywbeth.

#### Ffyddlondeb

Fe ddaeth y Frenhines i'r orsedd yn ddynes ifanc iawn a gwelsom ddarn o



### Plygu glin – parhad

ben gyda'i marwolaeth. A synnwn i ddim mai'r un person, yn anad neb, a groesawai hynny fyddai Elizabeth Alexandra Mary ei hun. Oherwydd trwy drugaredd Duw ac ar sail ei ffydd yn yr Arglwydd Iesu mae pob gobaith ei bod bellach, fel holl gredinwyr yr oesoedd, yn rhan o dyrfa ddirifedi sy'n plygu gerbron gorsedd Arglwydd yr arglwyddi a Brenin y brenhinoedd, a bod yr un a dderbyniodd wrogaeth y torfeydd ar y ddaear bellach yn rhan o dyrfa nefol sy'n seinio clodydd yr Oen a fu farw drosti er mwyn ei dwyn i mewn i Deyrnas

ffilm o'r archif ohoni'n addo cyflwyno'i bywyd cyfan i'r gwaith, ac felly y gwnaeth. Does dim rhaid bod yn frenhinwr i edmygu ei ffyddlondeb i'w galwad nid yn unig fel brenhines ond fel dilynwr i Grist. Yn llawer nes atom, ond heb dderbyn hanner y sylw mae aelodau cyffredin llawer o'n heglwysy ni, bellach dros eu 80 oed, sy'n gwybod yn iawn beth ydy oes o wasanaeth. Wrth longyfarch ein haelodau sy'n dathlu 60 neu fwy o flynyddoedd priodasol, cofiwn fod llawer ohonynt wedi rhoi'r un ffyddlondeb dros y cyfnod hwnnw i Grist ac i'w heglwys leol. Tra'n croesawu plant a phobl a'u teuluoedd i'n plith, rhaid i ni hefyd gofio a dathlu'r rhai sydd wedi dal ati'n ffyddlon fel addolwyr a dilynwyr dros y degawdau. Yr her yw meithrin ffyddlondeb tebyg ymhlith ein haelodau heddiw mewn byd lle mae pawb fel gwenyn sy'n mynd o flodyn i flodyn i gasglu'r hyn maen nhw eisiau cyn symud ymlaen.

#### Tynnu sylw

Fel priodasau a genedigaethau, mae angladdau brenhinol yn gallu bod yn ffordd effeithiol iawn o dynnu sylw gwerin gwlad oddi ar anghyfiawnderau'r dydd ac mae'r gaeaf sydd o'n blaenau yn bygwth dangos fwy nag erioed y bwlch rhwng yr 'hefo' a'r 'heb'. Daeth newid yn rhif 10 Downing Street ddiwrnod yn unig cyn y newid ym Mhalas Buckingham a dydy gwybod fod y Prif Weinidog newydd yn modelu ei hun ar y diweddar Margaret Thatcher ddim yn gysur o gwbl i'r rhai sy'n poeni am y mwyaf difreintiedig yn ein cymdeithas. Mae yna rywbeth mawr o'i le pan mae pobl yn gorfod dewis rhwng talu am wres neu brynu bwyd a bydd mwy o bobl na'r arfer yn teimlo'r esgid yn gwasgu'r gaeaf yma.

#### Cofio

Wrth i ni golli brenhines a chael brenin ac wrth i un prif weinidog roi'i le i un newydd, cawn ein hatgoffa nad mewn

amgenach a thragwyddol. Ac fel pawb arall a etifeddodd fywyd tragwyddol y nefoedd mae hi, er diosg ei choron ddaearol, yn fwy na bodlon o gael ei derbyn trwy ras i'w chartref nefol.

Un o ddirgelion y Ffydd yw llawenydd perffaith y nefoedd sy'n fwy na digon ar gyfer holl blant Duw, yn fonedd a gwrêng. A rhan o ryfeddod y nefoedd yw y bydd brenhines a wybu beth oedd pwyso ar Iesu Grist am ras a nerth a maddeuant yn gorfoleddu wrth blygu glin a moli'r Oen.

**John Pritchard**

(o Gronyn, taflen wythnosol gofalaeth fro'r Llechen Las Medi 11, 2022)

brenhinoedd nag unrhyw arweinwyr dynol da ni i fod i roi ein ffydd ond yn y Duw digyfnewid, sanctaidd a chyfiawn. Cofiwn ein bod yn dilyn y Crist a anwyd, nid mewn palas crand ond mewn stabl ddigysur a bod ei ddilyn yn alwad i ymwrthod â chael ein caethiwo i gyfoeth bydol. Rydan ni hefyd yn cofio ein bod yn dilyn yr un wnaeth droi'r byrddau mewn protest yn y deml yn erbyn cam-drin y tlawd ac yn gwybod fod protest yn rhan o'n galwad ninnau pan fydd pobl yn cael cam.

#### Nes adre

Wrth gwrs, mae hi'n hawdd iawn i ni feirniadu bywyd bras y rhai sydd yn llygaid y cyhoedd heb edrych nes adre a chydabod bod llawer ohonom sy'n darllen y geiriau yma yn byw bywydau reit gysurus o'i gymharu â rhai. Dros y misoedd nesaf, mi fyddwn ni i gyd yn byw mewn ffordd fwy gofalus gan ddiffodd goleuadau diangen a gwisgo mwy o haenau. Efallai y byddwn ni'n trio gwneud llai o siwrneiau yn y car, neu'n siopa mewn archfarchnadoedd rhatach nag o'r blaen ac mae'n siŵr y bydd y rhan fwyaf ohonom ni'n llwyddo gaeafu'n glyd nes daw'r gwanwyn. I nifer yn ein cymdeithas mi fydd hi'n stori reit wahanol. Mi fydd geiriau o Lythyr lago yn ein herio ni i fel unigolion ac eglwysy i beidio â'u hanghofio. 'Os ydych chi'n gweld brawd neu chwaer yn brin o ddillad neu heb fwyd, ac yna'n dweud, "Pob bendith i ti! Cadw'n gynnes, a gobeithio cei di rywbeth i'w fwyta." Beth ydy'r pwynt os ydych chi'n ei adael yno heb roi dim byd iddo?'

**Casi Jones**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

### Llyfrau Coleg yr Annibynwyr Cymraeg

Mae'r Coleg yn dymuno dosbarthu'r holl stoc llyfrau sy'n weddill cyn diwedd Medi 2022.

Os hoffech gael unrhyw lyfrau, dewch i'w casglu o'r swyddfa yng Nghaerfyrddin ar 26 neu 27 Medi.

Cewch hyd i restr llyfrau'r Coleg ar y wefan hon:

[librarything.com/catalog/Coleg\\_Annibynwyr](http://librarything.com/catalog/Coleg_Annibynwyr), neu drwy law'r cyfarwyddwr.

Byddwn yn hapus i roi cyfrolau o'r neilltu ar eich cyfer yn barod i'w casglu o Gaerfyrddin.

Aled Jones, Cyfarwyddwr y Coleg,  
parch.aled@yahoo.co.uk,  
07733 370560

**Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:**

**Y Parchg Ddr Alun Tudur**  
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,  
Caerdydd, CF23 9BS  
Ffôn: 02920 490582  
E-bost: aluntudur@btinternet.com

**Y Parchg Iwan Llewelyn Jones**  
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,  
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,  
LL49 9UE  
Ffôn: 01766 513138  
E-bost: IwanLlew@aol.com

**Golygyddion**

**Alun Lenny**  
Porth Angel, 26 Teras Picton  
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX  
Ffôn: 01267 232577 /  
0781 751 9039  
E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

**Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:**

**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc  
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe  
ABERTAWE SA7 0AJ  
Ffôn: 01792 795888  
E-bost: undeb@annibynwyr.cymru**

**Dalier Sylw!**

Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan  
Bwyllgor Llywio'r Adran  
Gydenwadol ac nid gan Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a  
wneio Golygyddion Y Tyst ddim â  
chynnwys yr Adran Gydenwadol.

**Anrhydeddu ein gweinidog**

Yng nghyfarfod Blynyddol GISDA ar 21  
Gorffennaf, anrhydeddwyd y Parchg J. Ron  
Williams ar achlysur ei ymdeoliad o fwrdd  
GISDA wedi 37 mlynedd o wasanaeth. Yn ystod y  
cyfnod hwnnw, bu hefyd yn gadeirydd y bwrdd am  
dymor.

**GISDA**

Elusen â swyddfeydd yng Nghaernarfon, Blaenau  
Ffestiniog a Phwllheli yw GISDA, a'i gwaith yw  
darparu cefnogaeth a chyfluoedd i bobl ifanc fregus sydd rhwng 16 a 25 oed. Yn y cyfarfod  
blynyddol, cyflwynwyd llun a cherdd o waith Ifor ap Glyn i'r gweinidog yn  
gydnabyddiaeth o'i waith, a mynegwyd diolch diffuant iddo am ei gyfraniad gwerthfawr i'r  
mudiad. Ychwanegwn ninnau ein llongyfarchiadau gwresog a'n dymuniadau da iddo.

**Y Gŵr sydd â Gisda'n ei galon  
(i Ron Williams)**

Nid aeth efe o'r tu arall heibio,  
Y gŵr sydd â Gisda'n ei galon –  
Ond arhosodd yn hytrach hanner einioes  
Yn herio anghyfiawnder, drwy hybu a helpu,  
Drwy ymgeleddu'r rhai heb do, heb dân.

Y gŵr sydd â Gisda'n ei galon  
Fu'n gadarn ei gadeiryddiaeth,  
Yn saernio dadl yn dawel,  
Yn llifio problemau, llyfnu anawsterau,  
Gan asio trawstiau croes, er creu to.

Deallai fod parch wrth gael drws ffrynt,  
Fod gobaith yn goleuo'r ffenestri,

Wrth roi'r allweddi mewn llaw ifanc;  
Gwyddai fod gwerth i'w efengyl ymarferol,  
Mai 'oedfa' gydol wythnos yw'r Dre,  
A 'gwasanaeth' gydol oes.

Y gŵr sydd â Gisda'n ei galon  
A'n bendithiodd â blynyddoedd lu  
O fugeilio'r defaid di-gorlan.  
A diolchwn yn daer am ddiwydrwydd  
ffyddlon  
Y gŵr â Gisda, hyd byth yn ei galon.

**Ifor ap Glyn**

(allan o *Llais y Tabernacl*, Porthaethwy,  
tymor Diolchgarwch, rhifyn Medi 2022,)

*Ffotograffiaeth Iolo Penry***Sul Sbesial  
Cyfundeb Ceredigion**

**Sul 25 Medi, 2022 am  
1.00 o'r gloch hyd 5.00 o'r gloch**

yng Ngwersyll yr Urdd, Llangrannog  
manylion pellach oddi wrth

Karine Davies  
07486354429  
Karmags47@gmail.com


**UNDEB YR ANNIBYNWYR CYMRAEG  
CYFUNDEB GORLLEWIN MORGANNWG****Sul o fawl****Capel yr Allt-wen**

**Sul, 25 Medi, 2022 am 10.30 y bore**

*O Aberdar i Fethlehem!*

Awr yng nghwmni  
Delwyn Sion

Cerddor ac Arweinydd  
Bethlehem, Gwaelod y  
Garth, Caerdydd



Gwahoddiad i ymuno â ni yn ein

**Gwasanaeth  
Diolchgarwch a Chroeso**

**i ffrindiau, myfyrwyr ac ieuentid newydd i  
Llundain.**

**Bore Sul, 9 Hydref am 11.00  
Lluniaeth ysgafn a chyfle i gymdeithasu i ddilyn.**

Eglwys Gymraeg Canol Llundain  
30 Eastcastle Street, Oxford Circus, London W1W 8DJ

Croeso cynnes i bawb



**Eglwys Annibynnol**  
Providence, Llangadog  
Bethlehem, Dyffryn Ceidrych,

**Gwasanaeth Sefydlu'r  
Parchedig Catrin Ann**

**Prynhawn Sadwrn, 1 Hydref, 2022 am  
2 o'r gloch y prynhawn  
yng Nghapel Providence Llangadog**

**Bydd lluniaeth wedi'r oedfa yn  
Neuadd Gymunedol Llangadog**

**Croeso Cynnes i bawb**

Ysgrifenyddes yr ofalaeth: Mrs Jennifer Hughes  
Efail Newydd, Carreg Sawdde,  
Llangadog SA19 9BU  
(01550 779122 e.bost jen60@hotmail.co.uk)